University of South Wales Prifysgol De Cymru

This document is available in English / Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg

# GWEITHDREFN AR GYFER CEISIADAU AM GYNRYCHIOLAETH GYFREITHIOL

**Egwyddorion cyffredinol**

1. Gweithdrefnau mewnol y Brifysgol yw Gweithdrefnau Prifysgol De Cymru ac nid prosesau cyfreithiol ffurfiol ydynt. O ganlyniad, ni ddylai fod angen cynrychiolydd cyfreithiol ar fyfyrwyr. Gall myfyrwyr geisio cyngor rhagarweiniol heb ragfarn ond nid oes ganddynt hawl awtomatig i gynrychiolaeth gyfreithiol mewn perthynas â gweithdrefnau'r Brifysgol.

2. Os yw myfyriwr am gael ei cynrychioli mewn cyfarfod, gwrandawiad, neu mewn gohebiaeth gyffredinol â'r Brifysgol, o dan unrhyw un o'i Gweithdrefnau, rhaid iddynt wneud cais am ganiatâd yn ysgrifenedig i'r Uned Gwaith Achos Myfyrwyr (studentcasework@southwales.ac.uk). Rhaid i'r myfyriwr gynnwys yn y cais enw, statws a manylion cyswllt y cynrychiolydd arfaethedig a'r rhesymeg dros y cais.

3. Mewn rhai achosion, gall ymgysylltu â chyngor neu gynrychiolaeth gyfreithiol ychwanegu amser neu gymhlethdod ychwanegol at achos, a all effeithio ar amserlenni gweithdrefnol.

4. Dylai'r myfyriwr wneud y cais i'r Uned Gwaith Achos Myfyrwyr o leiaf bum niwrnod gwaith cyn dyddiad y cyfarfod lle maent yn gofyn am unigolyn sy'n gymwys yn gyfreithiol fod yn bresennol, neu ddeg niwrnod gwaith cyn dyddiad y gwrandawiad.

5. Penderfyniad y Pennaeth Gwaith Achos Myfyrwyr (neu enwebai) yw rhoi caniatâd ar gyfer cynrychiolaeth gyfreithiol ai peidio. Bydd y myfyriwr yn cael wybod am y penderfyniad o fewn tri diwrnod gwaith i dderbyn y cais. Mae penderfyniad y Pennaeth Gwaith Achos Myfyrwyr (neu enwebai) yn derfynol ac nid oes hawl i apelio o dan y Weithdrefn hon yn erbyn y penderfyniad. *N.B. Sylwch fod amserlenni gwahanol yn berthnasol ar gyfer ymateb i geisiadau am gynrychiolaeth gyfreithiol mewn gwrandawiadau (gweler pwynt 11 ymlaen).*

6. Gwneir yr ystyriaethau canlynol wrth adolygu cais o'r fath:

   *Mewn achosion disgyblu:*

   - Difrifoldeb y cyhuddiad ac a allai'r canlyniad arwain at amddifadu'r myfyriwr o'i hawl i ymarfer ei broffesiwn dewisol, neu a allai ragfarnu'r hawl honno'n anadferadwy, a/neu a allai canlyniad posibl fod yn ddiarddeliad;
   - Gallu'r myfyriwr i ddeall yr achos yn ei erbyn;
   - Yr angen am degwch rhwng Myfyriwr sy'n Ymateb a Pharti sy'n Adrodd.

   *Ym mhob achos:*

   - A yw unrhyw bwyntiau cyfreithiol yn debygol o godi;
   - Anawsterau gweithdrefnol.

7. Bydd cynrychiolwyr/unigolion cymorth sy'n gymwys yn gyfreithiol yn cael gwybod yn glir am natur y trafodion, h.y., nad yw'n broses gyfreithiol ac na fydd yn cael ei chynnal felly.

8. Ni fydd y Brifysgol yn gyfrifol am dalu costau unrhyw gyngor cyfreithiol y mae myfyriwr yn ei gael ynghylch ei achos, na'r costau sy'n gysylltiedig ag unrhyw gynrychiolaeth gyfreithiol a ganiateir.

9. Nid yw gwrthod caniatâd i gynrychiolaeth gyfreithiol yn gwahardd nac yn cyfyngu ar hawl myfyriwr i geisio cyngor cyfreithiol. Mae'r Brifysgol hefyd yn cadw'r hawl i geisio cyngor cyfreithiol ar unrhyw weithdrefn gwaith achos myfyrwyr mewnol, os ystyrir bod angen gwneud hynny, a all gynnwys achos lle nad yw myfyriwr wedi cael cynrychiolaeth gyfreithiol.

10. Mewn perthynas â gwrandawiadau a chyfarfodydd, lle na roddir caniatâd, rydym yn cydnabod y gallai fod angen amser ychwanegol ar fyfyrwyr i ddod o hyd i gefnogaeth arall. Rhaid i'r myfyriwr gyflwyno unrhyw gais i ohirio unrhyw wrandawiad/cyfarfod a drefnwyd i'r Uned Gwaith Achos Myfyrwyr o fewn pum niwrnod gwaith i ddyddiad yr hysbysiad nad yw caniatâd i gynrychiolaeth gyfreithiol wedi'i roi.

**Cynrychiolaeth gyfreithiol ar gyfer gwrandawiadau**

11. Bydd y Pennaeth Gwaith Achos Myfyrwyr (neu enwebai) ar ôl ymgynghori â Chadeirydd y Pwyllgor Disgyblu yn dod i benderfyniad ar y cais o fewn pum niwrnod gwaith i'w dderbyn. Mae penderfyniad y Pennaeth Gwaith Achos Myfyrwyr (neu enwebai) yn derfynol ac nid oes hawl i apelio o dan y Weithdrefn hon yn erbyn y penderfyniad.

12. Lle rhoddir caniatâd, gall y Brifysgol hefyd gael ei chynrychioli'n gyfreithiol. Bydd y myfyriwr yn cael gwybod yn ysgrifenedig a fydd gan y Brifysgol ei hunigolyn ei hun sy'n gymwys yn gyfreithiol yn bresennol hefyd.

13. Os bydd Myfyriwr sy'n Ymateb yn cael ei gynrychioli'n gyfreithiol yn ystod gwrandawiad, gall unigolyn sy'n gymwys yn gyfreithiol y Brifysgol hefyd roi canllawiau i'r Myfyriwr sy'n Adrodd, os nad oes ganddo gynrychiolaeth gyfreithiol a phe bai hyn yn ofynnol.

14. Bydd rôl unigolyn y Brifysgol sy'n gymwys yn gyfreithiol mewn gwrandawiad yn cynnwys:

- Rhoi unrhyw gyngor ac arweiniad sydd eu hangen ar y Pwyllgor er mwyn iddo gyflawni ei swyddogaeth yn briodol (p'un a ofynnir am gyngor ai peidio), gan gynnwys ar unrhyw gwestiynau ynghylch y gyfraith, tystiolaeth, gweithdrefn a'i bwerau;
- Cynorthwyo'r Pwyllgor i gofnodi'r rhesymau dros ei benderfyniad;
- Sicrhau bod yr achos yn cael ei gynnal yn deg;
- Cynorthwyo gyda holi tystion a/neu'r partïon er mwyn egluro unrhyw faterion yn yr achos;
- Cynorthwyo partïon heb gynrychiolaeth i gyflwyno eu hachos (heb weithredu fel eiriolwr); a,
- Chodi unrhyw bryderon ynghylch afreoleidd-dra posibl wrth gynnal achos.

Ni fydd y rôl yn ymestyn i:

- Chwarae unrhyw ran wrth wneud canfyddiadau ffeithiol; neu,
- Gyfarwyddo'r Pwyllgor ar ganlyniadau.

15. Gall caniatâd i gynrychiolaeth gyfreithiol ddod gydag amodau (yn dibynnu ar yr amgylchiadau) i gadw natur anffurfiol y weithdrefn fewnol. Er enghraifft, gellir gofyn i'r cynrychiolydd cyfreithiol wneud y canlynol:

- mynychu mewn rôl gefnogol yn unig (h.y., peidio â gofyn nac ateb cwestiynau ar ran y myfyriwr);
- cyflwyno eu cwestiynau ymlaen llaw;
- mynd i'r afael ag unrhyw gwestiynau/eiriolaeth drwy'r Cadeirydd, lle gellir ystyried bod cwestiynau'n uniongyrchol i dystion yn peri gofid.